


# EDRYCH YMLAEN





## CYLCHLYTHYR YR HYDREF

Croeso i ail rifyn Edrych Ymlaen. Mae'r wyth mis diwethaf wedi bod yn rhyfedd ac yn heriol. Ond, trwy gydol y cyfnod hwn mae Dolen Teifi wedi ceisio darparu gwasanaeth i fodloni anghenion a disgwyliadau pobl trwy ddarparu amgylchedd diogel er mwyn iddyn nhw deithio.

Er mai ychydig fisoedd sydd wedi mynd heibio ers i ni gyhoeddi'r rhifyn diwethaf, mae yna lawer wedi digwydd yn Dolen Teifi a Llandysul. Ym mis Medi a mis Hydref gwelwyd y gwasanaethau bws mini yn dychwelyd at ryw fath o normalrwydd. Fe fu grwpiau yn ardaloedd Rhydaman, Llanelli a Llandysul yn defnyddio'r bysiau i fynd i siopa neu ar gyfer gwibdeithiau byr, yn dilyn y cyfnod clo hir. Yn anffodus, byrhoedlog oedd hynny oherwydd cyhoeddwyd pythefnos o glo byr.

Erbyn hyn, mae'r clo byr wedi dod i ben, ac mae rhai grwpiau a mudiadau wedi dechrau defnyddio'r gwasanaeth unwaith eto. Gobeithio y bydd hyn yn parhau tan y Nadolig ac i mewn i'r Flwyddyn Newydd.

### FFAIR NADOLIG LLANDYSU

Mae wedi bod yn flwyddyn go ansicr, ac oherwydd y sefyllfa sydd ohoni gyda Covid-19, ni chynhelir Ffair Nadolig Llandysul yn 2020. Siom fawr i lawer o bobl, yn enwedig o ystyried llwyddiant digwyddiad 2019. Fodd bynnag, edrychwn ymlaen at ddathlu unwaith eto yn 2021.

Ond, nid yw pethau'n ddrwg i gyd. Mae planhigfa Farmyard Nurseries wedi bod yn ddigon caredig i roi tair coeden Nadolig fawr i'r Dref unwaith eto eleni, a bydd gwirfoddolwyr yn estyn llaw gyda'r goleuadau. Bydd Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen yn gosod Byrddau Nadoligaidd hwnt ac yma yn Llandysul a Phont-Tyweli, a gobeithio y daw hyn â mwy o hwyl yr ŵyl i'n plith.

Bydd LIPhY hefyd yn cynnal cystadleuaeth **Ffenestr Addurniadol Nadoligaidd Orau** i fusnesau. Bydd cyfle i bawb bleidleisio dros y ffenestr orau. Er mwyn pleidleisio, gallwch edrych ar wefan Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen am ffurflen neu alw heibio i'r swyddfa. Mae gennym fusnesau bach gwych yn Llandysul a Phont-Tyweli - dewch i ni siopa'n lleol a chefnogi'n busnesau lleol.

### GWOBR I GLWB LLANDYSUL PADDLERS

Yn ddiweddar, mae Llandysul Paddlers wedi ennill Gwobr Travellers Choice 2020 gan Trip Advisor. Mae hyn yn newyddion rhagorol iddyn nhw ac yn gosod Llandysul a Phont-Tyweli ar y map. Maen nhw hefyd yn cynnal sesiynau hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae hyn wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Ar ran Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen, hoffem eu llongyfarch ar ennill y wobr hon.

## **SGRINIAU DIOGELWCH**

Dyma'r diweddaraf am sut y mae Dolen Teifi yn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Covid-19 a bod yr holl weithdrefnau diogelwch ar waith er diogelwch y teithwyr a'r gyrrwr. Rydym bellach wedi gosod sgriniau diogelwch yn ein holl fysiau a'n ceir. Gosodwyd y sgriniau hyn rhwng ardal y gyrrwr ac ardal y teithiwr. Mae pob un o'n cerbydau yn cael ei lanhau yn drwyadl bob tro wedi iddo gael ei hurio. Hefyd, mae yna arwyddion Covid-19 ar bob cerbyd er mwyn atgoffa teithwyr fod angen i bawb wisgo masg a chadw at y rheolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol.

## **LANSIO PROSIECT TRAFNIDIAETH DRYDAN YN LLANDYSUL A'R CYFFINIAU**

Mae Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen wedi llwyddo i sicrhau nawdd o £446k gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ddatblygu opsiwn trafnidiaeth garbon-isel ag allyriadau hynod o isel, sy'n hollol hygyrch. Mae gennym gerbydau Nissan Multi-Purpose Vehicle (MPV) â 7 sedd sy'n hollol hygyrch ac a bwerir gan drydan ac mae ynddynt le i gadair olwyn. Bydd y cerbydau'n cael eu gosod o fewn radiws hyblyg o wyth milltir i Landysul er mwyn rhoi sylw i'r diffyg trafnidiaeth, fel bod pob unigolyn a grŵp yn gallu defnyddio gwasanaethau lleol a rhanbarthol allweddol o amgylch Llandysul a'r gefnfro. Bydd rhwydwaith bychan o bwyntiau gwefru trydan gwledig yn cael eu gosod mewn mannau strategol yn y lleoliadau lle bydd y cerbydau.

Bydd y prosiect hefyd yn rhoi sylw i'r anawsterau y mae mudiadau yn eu hwynebu wrth geisio cael unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, digwyddiadau ac apwyntiadau. Byddwn hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau fel ein bod yn cynllunio law yn llaw â'u gweithgareddau neu raglenni nhw.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid newydd a phartneriaid sydd eisoes wedi eu sefydlu, gan annog dull o weithio ar lawr gwlad. Byddwn yn datblygu gwasanaethau a fydd yn helpu ein cymunedau i deimlo'n llai ynysig ac wedi eu cysylltu'n well, ac yn sicrhau bod ganddynt well mynediad at gyfleoedd a gwell llesiant ar lefel unigol.

Gall y cerbydau gael eu defnyddio gan unigolion fel clwb ceir, gallant gael eu gyrru gan wirfoddolwyr, darparu siwrneiau â chymorth ar gyfer unigolion neu gael eu defnyddio i yrru grwpiau bach o bobl i weithgareddau iechyd, hamdden a nifer o weithgareddau eraill. Rhoddir hyfforddiant i bob gyrrwr, i'r safon MiDAS a gydnabyddir yn genedlaethol.

Os ydych chi am fod yn rhan o'r gweithgarwch, os oes gennych awgrymiadau neu os hoffech chi gael gwybod mwy, da chi cysylltwch â'r swyddfa ar 01559362403 / 07771814401 neu anfonwch e-bost at [rod@dolenteifi.org.uk](mailto:rod@dolenteifi.org.uk)

Mae rhagor o wybodaeth ar ein gwefan, [www.dolenteifi.org.uk](http://www.dolenteifi.org.uk)

## TRAFNIDIAETH GYMUNEDOL DOLEN TEIFI ANGEN EICH HELP CHI!

Mae Dolen Teifi wedi creu holiadur er mwyn deall eich anghenion trafniadaeth yn well a deall beth yw'r ffordd orau o'ch cefnogi.

Mae Trafnidiaeth Gymunedol Dolen Teifi yn fudiad nid-er-elw ac yn elusen gofrestredig. Ein nod yw darparu trafniadaeth fforddiadwy a hygyrch ar gyfer unigolion, mudiadau a grwpiau, er mwyn helpu sicrhau newid cymdeithasol yn ein cymunedau yn Sir Gâr a Cheredigion Mae gennym sawl math o gerbyd sy'n hollol hygyrch ac maen nhw ar gael i'w defnyddio ar gyfer pob math o weithgareddau: gwibdeithiau cymdeithasol, siopau, apwyntiadau yn yr ysbyty, gwaith, gwasanaethau cymunedol i.e. Bws mini, Car trydan, Car Volkswagen awtomatig. Rydym yn darparu gyrwyr gwirfoddol a hefyd yn hyfforddi aelodau o fudiadau cymunedol yn rhad ac am ddim fel eu bod yn gallu gyrru ein cerbydau. Os nad oes gennych unrhyw anghenion trafniadaeth, ond rydych yn gwybod am rywun arall ag anghenion o'r fath, yna da chi gofynnwch iddyn nhw lenwi'r holiadur hwn, neu llenwch yr holiadur ar eu rhan ar ôl cael eu caniatâd. Ni ddylai gymryd mwy nag ychydig funudau i chi lenwi'r holiadur hwn, a bydd yn gymorth mawr i ni wella'n gwasanaeth.

Gallwch lenwi'r holiadur trwy glicio ar y ddolen ganlynol:

<https://forms.gle/cA9zUrF7jADAmE9T9>

Neu gofynnwch am gopi papur trwy e-bostio [info@dolenteifi.org.uk](mailto:info@dolenteifi.org.uk) neu ffonio 01559 362403

## TRIGOLION TŶ DYFFRYN YN TORRI'N RHYDD

Roedd trigolion Tŷ Dyffryn, Rhydaman mor falch i glywed fod Dolen Teifi wedi ailgychwyn ei wasanaethau ym mis Medi ac yn barod i ddechrau'r gwasanaeth bysiau o Dŷ Dyffryn i Tesco Rhydaman unwaith eto.

Ers y cyfnod clo, o fis Mawrth i fis Medi, mae trigolion Tŷ Dyffryn wedi bod yn ynysu fel y gweddill ohonom. Nhw oedd un o'r grwpiau cyntaf i ddechrau defnyddio'r bws unwaith eto ar gyfer tripiâu siopa. Cyn y cyfnod clo, roedd Joan May, un o'r trigolion a threfnydd y tripiâu, yn mynd i siopa'n rheolaidd gydag wyth o'r trigolion eraill, bob dydd lau. Oherwydd y rheolau a'r rheoliadau newydd ynghylch cadw pellter cymdeithasol, mae'r bws mini yn gallu cludo chwe pherson ar y tro yn unig, ac felly yn lle un daith fws mae'r grŵp yn cael ei rannu rhwng dau fws. Dros yr ychydig wythnosau diwethaf, mae'r grŵp wedi bod ar dripiâu siopa i Dobbins yn Abertawe a Throstre yn Llanelli. Meddai Joan May, "Mae wedi bod yn anodd dros yr ychydig fisoedd diwethaf yma yn Nhŷ Dyffryn ac mae'n wych ein bod ni'n gallu dechrau mynd i siopa unwaith eto, a bod y bws ar gael er mwyn i ni wneud hynny."



## **PWYNTIAU GWEFRU TRYDAN NEWYDD**

Mae'n siŵr i chi glywed am gyhoeddiad Llywodraeth y DU yn ddiweddar ynghylch cerbydau disel a phetrol. Wel, mae'n newyddion da i'r rheiny sydd â char trydan neu sydd efallai'n ystyried prynu car trydan yn y dyfodol agos, ein bod ni'n mynd i fod yn ychwanegu at y pwynt gwefru tu allan i'n swyddfa. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae FSR Electricals wedi gosod dau bwynt gwefru trydan newydd yn siop T L Thomas a'i Feibion, Llanllwni a Phafiliwn Pencader. Gosodwyd y pwyntiau gwefru hyn gyda grant hael y mae Dolen Teifi wedi ei gael gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Er mwyn defnyddio'r pwyntiau gwefru hyn, bydd gofyn lawrlwytho Ap i'ch ffôn symudol. Bydd gan bob pwynt gwefru god QR arno a gall aelodau'r cyhoedd ei sganio er mwyn mynd yn syth i wefan ceir trydan MPV Dolen Teifi. Bydd y dudalen hon ar y wefan yn dangos i chi sut i gysylltu eich car at y pwynt gwefru, trwy gymorth fideo. Bydd gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft sut i lawrlwytho'r Ap, faint o amser a gymer i wefru'r cerbyd, a'r gost, ar gael ar wefan Dolen Teifi tua diwedd Ionawr. Am unrhyw wybodaeth arall am wasanaethau Dolen Teifi, gweler ein gwefan, e-bostiwch ni neu ffoniwch ni.

## **IEUENCTID TYSUL YN TORCHI LLEWYS**

Yn ddiweddar, mae Ieuenctid Tysul Youth wedi sicrhau grant gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion dan Gynllun Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc Gwirvol ar gyfer 2020. Mae'r bobl ifanc wedi gofyn am nawdd i brynu dewis o offer garddio a fydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu prosiect tyfu cymunedol newydd a chyffrous a fydd yn cael ei lansio'n fuan yn Llandysul. Bydd gan y prosiect ffocws cryf ar gynaliadwyedd bwyd, tlodi, iechyd a llesiant a bydd yn dod â'r gymuned ynghyd i daclo ynysigrwydd trwy bontio'r cenedlaethau. Roedd y bobl ifanc wrth eu boddau i glywed y newyddion ac ni allant aros i dorchi llewys". Meddai un aelod o'r grŵp, "Mae wedi bod yn anodd iawn yn ystod y cyfnod clo a gallwn ni ddim aros i fod nôl ar y tir. Bydd y grant hwn o gymorth mawr i wthio pethau yn eu blaenau ac ry'n ni mor ddiolchgar i gael y nawdd!". Bydd aelodau Ieuenctid Tysul Youth hefyd yn adeiladu bocsys nythu adar, potiau plannu a chynefinoedd bywyd gwyllt a fydd yn cael eu gosod mewn tai cymorth lleol ac yng nghartrefi unigolion. Os allech chi neu rywun yr ydych yn ei 'nabod elwa ar y prosiect hwn, da chi cysylltwch ar 01559362908 neu e-bostiwch [admin@tysulyouth.org](mailto:admin@tysulyouth.org) am ragor o fanylion.

## **ADFYWIO BUSNESAU YN LLANDYSUL A PHONT-TYWELI**

Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen wedi parhau gyda'r cyfarfodydd misol dros Zoom gyda busnesau yn ardal Llandysul a

Phont-Tyweli. Mae'r cyfarfodydd Zoom hyn wedi trafod dewis o destunau er mwyn ceisio adfywio canol tref Llandysul. Yn dilyn cyfarfod mis Medi, sefydlwyd is-grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr busnesau gwahanol yn Llandysul a'r cyffiniau.

Nawr, bydd yr is-grŵp hwn yn cymryd y rôl o ddatblygu, ymchwilio a cheisio am grantiau. Mae Sandra Richard-Davies, un o wirfoddolwyr y gweithgor, wedi cymryd y rôl arweiniol ac wedi cyflwyno amryw syniadau y gellid eu gweithredu yng nghanol y dref:- roedd y rhain yn cynnwys cael gwared ar faneri ar y gylchfan wrth Groesffordd er mwyn twtio ychydig ar yr ardal honno, y posibilrwydd o osod arwyddion y ddwy ochr i'r ffordd osgoi a hysbysfyddau yng nghanol y dref - i enwi ond ychydig.

Mae Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol Twf a Menter Cyngor Sir Ceredigion wedi parhau i ddiweddarau'r busnesau ynghylch grantiau sydd ar gael ar hyn o bryd trwy Gyngor Sir Ceredigion a ffrydiau nawdd eraill er enghraifft cymorth Covid-19 Llywodraeth Cymru i fusnesau. Buodd hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda'r grŵp am y gweithgareddau y mae'r Cyngor Sir yn rhan ohonynt er mwyn cefnogi Trefi'r sir ymhellach, yn enwedig i oresgyn effeithiau'r pandemig hwn ar y sir.

Byddai croeso cynnes i fwy o fusnesau ymuno yn ein cyfarfodydd Zoom, neu, i rannu unrhyw syniadau ynghylch adfywio Llandysul, cysylltwch â Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen



## **GALW AM WIRFODDOLWYR SY'N SIARAD CYMRAEG**

Mae angen siaradwyr Cymraeg! Allech chi wirfoddoli i fod yn gyfaill i Age Cymru Dyfed? Mae gan ein tîm Cyfeillio'n Cysylltu Bywydau bobl hŷn sy'n siarad Cymraeg ac a fyddai'n hoffi cwmni ac wrth eu bodd yn sgwrsio yn eu hiaith gyntaf.

Oherwydd cyfyngiadau Covid, cyfeillio dros y ffôn fydd rhaid i gychwyn. Ond, wrth i bethau wella, rydyn ni'n gobeithio dechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â Lynne Meredith ar 07572630797 neu e-bostiwch [lynne.meredith@agecymrudyfed.org.uk](mailto:lynne.meredith@agecymrudyfed.org.uk)



## **LLECYN NEWYDD I GYN-FILWYR AR AGOR GER LLANDYSUL**

Hyb cymdeithasol yw Woody's Lodge ac mae'n arwain cyn-filwyr at y cymorth a'r gefnogaeth y mae arnynt eu hangen er mwyn ail-feithrin ymgysylltiad â'u teuluoedd a'u cymunedau. Ein gweledigaeth yw creu man cyfarfod croesawgar ar gyfer y rheiny sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog a'r Gwasanaethau Brys, lle y gallant gael cymorth a chynghor arbenigol a chyfle i feithrin cysylltiad gyda ffrindiau hen a newydd a'u teulu. Yma yn Woody's Lodge, rydym yn cofio am Paul Woodland, ei fywyd, a'i alwad i wasanaethu, trwy enwi'r Elusen Lluoedd Arfog hon ar ei ôl.

### **Cysylltwch â ni yn Woody's Lodge:**

**De Cymru:-**Amelia Trust Farm, 5 Mile Lane, Y Barri, CF62 3AS, Ffôn: **01446 781792**

**Gogledd Cymru:-** Parc Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BN  
Ffôn: **01492 5339**

### **Lodge Fferm Penlan**

Woody's Lodge  
Fferm Penlan  
Penrhiw-pâl  
Llandysul  
SA44 5QH  
Ffôn: **01559361328**

Am ragor o wybodaeth gallwch hefyd anfon e-bost atom: [support@woodyslodge.org](mailto:support@woodyslodge.org)

## DIOLCH YN FAWR IAWN

Ar ran holl Gyfarwyddwyr a staff Llandysul a Phont-Tyweli Ymlaen a Dolen Teifi, hoffem ddiolch i'n holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth trwy gydol 2020, er gwaethaf cyfyngiadau Covid. Diolch yn fawr iawn i'n holl wirfoddolwyr ymroddgar, sy'n asgwrn cefn i'r gwasanaeth. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi oll unwaith eto yn 2021 a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi.



## CYSYLLTWCH:

- Ar gyfer gwybodaeth am Fusnesau, Mudiadau a Digwyddiadau Llandysul a Phont-Tyweli: [www.llandysul-ponttyweli.co.uk](http://www.llandysul-ponttyweli.co.uk)
- Ar gyfer Trafnidiaeth Gymunedol [www.dolenteifi.org.uk](http://www.dolenteifi.org.uk)
- Rhif ffôn: 01559 362 403
- Cyfeiriad e-bost: [info@dolenteifi.org.uk](mailto:info@dolenteifi.org.uk)

